# YR ATODLENNI

## ATODLEN 6

## ER MWYN DIOGELU NETWORK RAIL

### *Iawndal ar gyfer gweithredwyr trenau*

**16.—**(1) Bydd y symiau sy'n daladwy gan yr ymgymerwr o dan baragraff 15 yn cynnwys swm sy'n cyfateb i'r costau perthnasol.

(2) Yn ddarostyngedig i amodau unrhyw gytundeb rhwng Network Rail a'r gweithredwyr trenau perthnasol ynghylch amseru neu ddull talu'r costau perthnasol o ran y gweithredwr trenau hwnnw, rhaid i Network Rail dalu pob gweithredwr trenau yn brydlon faint y symiau a gafodd Network Rail o dan is-baragraff (1) sy'n ymwneud â chostau perthnasol y gweithredwr trenau hwnnw.

(3) Os digwydd diffyg, mae'r rhwymedigaeth o dan is-baragraff (1) i dalu Network Rail y costau perthnasol yn orfodadwy gan y gweithredwr trenau o dan sylw yn uniongyrchol, i'r graddau y byddai'r symiau hynny yn daladwy i'r gweithredwr hwnnw yn unol ag is-baragraff (2).

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "costau perthnasol" ("*relevant costs*")yw'r costau, y colledion uniongyrchol a'r treuliau (gan gynnwys colli refeniw) a dynnwyd yn rhesymol gan bob gweithredwr trenau oherwydd unrhyw gyfyngiad ar ddefnyddio rhwydwaith reilffyrdd Network Rail o ganlyniad i'r gwaith adeiladu, neu'r gwaith cynnal a chadw neu fethiant y gweithfeydd perthnasol neu unrhyw weithred neu anwaith o'r fath a grybwyllir ym mharagraff 15(1); ac

ystyr "gweithredwr trenau" ("*train operator*") yw unrhyw berson sy'n gweithredu trenau yn unol â thrwydded o dan adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993([1]) neu ag esemptiad o dan adran 7 o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1993 p.43.